# Panel Heddlu a Throseddu De Cymru

## ADRODDIAD AR BRAESEPT A GYNIGIR GAN GOMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DE CYMRU AR GYFER 2021/22

### Cefndir

Mae'r adroddiad hwn yn cael ei wneud i gydsynio â dyletswydd statudol Panel Heddlu a Throseddu De Cymru ("PHTDC") sy'n gynwysedig yn Atodlen 5, Paragraff 3(2) Deddf Diwygio a Chyfrifoldeb Cymdeithasol yr Heddlu 2011 ("y Ddeddf"). Rhaid i'r Panel lunio adroddiad i'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu am y praesept arfaethedig.

### Adolygiad o'r Praesept a Gynigir ar gyfer 2021/22

Hysbysodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru y PHTDC ar 27 Ionawr 2021 am y Praesept a Gynigir ar gyfer 2021/22.

Cafwyd cyfarfod o PHTDC ddydd Mercher 3 Chwefror 2021 i adolygu'r Praesept ac i adrodd yn ôl ar y praesept a gynigir. Mae copi o'r adroddiad yn cynnwys manylion y Praesept a gynigir ar gael i'w weld ar dudalennau PHTDC ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.

Dolen i'r Adroddiad Praesept

https://democracy.merthyr.gov.uk/documents/s53173/Committee%20Report.pdf?LLL=0

### Adroddiad

Gwnaeth Panel Heddlu a Throseddu De Cymru ystyried cynnig y Praesept i gefnogi'r cynnydd arfaethedig o 5.5% i'r Praesept sef £287.72 a chynnydd o £15 y flwyddyn ar gyfer eiddo Band D.

Gwnaeth y Panel sylwadau am y praesept gan ddatgan ei fod yn siomedig er y ceisiadau niferus i Lywodraeth Ganolog, nad oedd arian ychwanegol wedi ei ddyrannu i Heddlu De Cymru i gynorthwyo gyda'r gost o heddlua Caerdydd, sydd yn brif ddinas. Yn ychwanegol, gwnaeth y Panel ddatgan fod cwtogiadau unwaith eto o Lywodraeth Leol yn raddol symud y baich o ariannu'r heddlu i'r sawl sy'n talu'r dreth gyngor, sydd, ym marn y Panel, yn annerbyniol. Fodd bynnag, gwnaeth y Panel gefnogi'r cynnig i alluogi Heddlu De Cymru i gynnal ei lefel gyfredol o wasanaeth.



Arwyddwyd: ………………………………………………….

Cadeirydd Panel Heddlu a Throseddu De Cymru

Dyddiedig: 3 Chwefror 2021